Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Tre Ioan
# Tre Ioan
# Caerfyrddin
# SA31 3HS

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd fawr mewn ardal faestrefol ar ochr orllewinol Caerfyrddin yw Ysgol Gynradd Tre Ioan. Mae 384 o ddisgyblion (371.5 cyfwerth ag amser llawn) yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae 14 dosbarth, yn cynnwys dau ddosbarth meithrin. Daw deuddeg y cant o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae saith y cant o'r disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae un deg tri y cant o'r disgyblion wedi'u cofrestru i gael pryd ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Nodwyd bod gan ddau ddeg un y cant o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae 8% naill ai ar y gofrestr Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu mae ganddynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Tre Ioan yn 2010-2011 yw £3,100, sy'n cymharu ag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r 110fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2000.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gynradd Tre Ioan yn ysgol dda iawn ac mae ei pherfformiad cyffredinol yn dda oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da o leiaf yn eu dysgu yn y rhan fwyaf o feysydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod lefelau cyrhaeddiad da yn y ddau gyfnod allweddol gyda gwelliant arwyddocaol iawn mewn rhai agweddau yn ddiweddar;
- bod yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog ac amrywiol iawn o brofiadau dysgu trwy gwricwlwm eang ac amrywiol; a
- bod yr addysgu'n cynnwys llawer o gryfderau.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod arweinyddiaeth dda iawn gan y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethol;
- bod mentrau addysgu a dysgu diweddar eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a safonau disgyblion;
- bod effaith y Cynllun Gwella Ysgol yn arwain at welliannau arwyddocaol mewn addysgu a dysgu, gosod targedau yn effeithiol a chynlluniau clir ar gyfer gwella ymhellach;
- bod yr ysgol wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol; a
- bod diwylliant cryf o gydweithio i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a lefelau cyflawniad da iawn.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn y cwricwlwm ehangach;

A2 adolygu i ba raddau y defnyddir taflenni gwaith yng nghyfnod allweddol 2 i ddatblygu ysgrifennu disgyblion mewn rhai o feysydd y cwricwlwm; a

A3 sicrhau bod egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ym mhob dosbarth.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau gwaelodlin yn dangos bod mwyafrif y plant yn dechrau'r ysgol gydag o leiaf y medrau sy'n ddisgwyliedig ar gyfer plant o'u hoedran. Mae llawer ohonynt, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, roedd cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gryf mewn mathemateg, yn rhesymol mewn gwyddoniaeth ond ddim cystal mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 1, ychydig iawn o fechgyn a gyflawnodd y lefel uchaf mewn Saesneg ac fe wnaeth cyfran lai o ddisgyblion na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg gyflawni'r lefelau uchaf mewn unrhyw un o'r pynciau craidd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwelliant cyson wedi bod dros y tair blynedd diwethaf yn y canlyniadau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Cyflawnodd disgyblion yn dda yn y pynciau hyn o'i gymharu â'r gyfran gyfartalog mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg wedi bod yn llai cyson, ond cafwyd canlyniadau da yn 2010, gyda chyflawniad bechgyn yn gryf iawn. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uchaf yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ond roedd gwelliant mawr yn 2010.

Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, yn y ddau gyfnod allweddol, mae merched wedi cyflawni'n llawer gwell na bechgyn; fodd bynnag, yn 2010 yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyflawniad bechgyn yn dda iawn, ac yn well na chyflawniad y merched.

Cyflawnodd disgyblion yn dda mewn Cymraeg ail iaith yn 2010, gyda 74% (mwy na dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol) yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Mae'r canlyniadau hyn hefyd gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. O ystyried cefndir ieithyddol yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio ymadroddion Cymraeg syml bob dydd yn eu cyd-destun ac fe geir dilyniant clir yn yr ystod o batrymau iaith a'r eirfa a ddefnyddir gan ddisgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mewn perthynas ag oedran a gallu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl, yn hyderus a chyda mynegiant. Mae disgyblion yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac mewn arddulliau gwahanol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa eang ac yn cymhwyso terminoleg bwnc yn fedrus. O bryd i'w gilydd, mae'r adnoddau a ddefnyddia'r disgyblion yn cyfyngu ar faint o ysgrifennu estynedig a chreadigol y gallant ei wneud. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau diddorol iawn hefyd o ysgrifennu arloesol a chreadigol, er enghraifft mewn dylunio a thechnoleg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyflwyno eu gwaith i safon uchel; mae'n ddestlus ac wedi'i drefnu'n dda. Mae llawer ohonynt yn sillafu'n gywir ac yn defnyddio atalnodi'n gywir. Wrth

farnu eu cyrhaeddiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 1, mae'n amlwg bod llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud cynnydd arwyddocaol iawn erbyn hyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda iawn ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu syniadau a'u teimladau yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae agweddau disgyblion at fyw yn iach, gan gynnwys bwyta'n iach ac ymarfer corff, yn dda iawn. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau gweithgarwch corfforol ac yn cymryd rhan yn y cyfleoedd helaeth y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer hyn. Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod gyda phwy i siarad pan fydd ganddynt bryderon.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi'u symbylu'n dda iawn ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn mwynhau eu gwersi'n fawr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu. Maent yn gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau a gynigir ac yn falch o'u gwaith ac o'r ysgol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent bob amser yn dangos parch, gofal a phryder am eraill.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn llunio rheolau'r ysgol; mae eu hawgrymiadau yn feddylgar ac yn ategu'r ffordd y maent yn ymddwyn. Mae Cynghorau Ysgol ac Eco gweithgar iawn wedi gwella amgylchedd yr ysgol ac mae'r naill a'r llall yn gweithio'n ddiwyd gyda'r gymuned. Mae'r cyrff hyn, ynghyd â swyddogion ysgol, yn cyfrannu at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae grwpiau o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cyfweliadau ac mewn darparu hyfforddiant TGCh ar gyfer staff hefyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu. Mae ymglymiad cymunedol a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn briodol ac yn bodloni anghenion pob dysgwr. Caiff y cynllunio ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm ei ymgorffori'n dda, gyda medrau meddwl, TGCh a chyfathrebu yn amlwg mewn llawer o feysydd dysgu. Mae cynllunio yn cynnwys medrau rhifedd ac ysgrifennu, ond mae lle i ymestyn eu defnydd ar draws y cwricwlwm.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer dwyieithrwydd a'r Cwricwlwm Cymreig, ac mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo ethos Cymreig. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud cynnydd da o ran datblygu synnwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang, ac mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i ddysgu a gweithredu'n gynaliadwy.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon berthynas dda iawn gyda disgyblion yn yr ysgol, a disgwyliadau uchel ohonynt. Mae eu gwersi'n amrywiol ac yn galluogi'r disgyblion i ddysgu mewn ffyrdd gwahanol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynnig cymorth

effeithiol iawn i'r rhai sydd ei angen, ac maent yn aml yn llwyddo i ymestyn dysgu'r disgyblion mwy abl. Mae athrawon yn cynllunio'n dda i hyrwyddo medrau meddwl disgyblion, ac maent yn cynnig modelau iaith da ar gyfer eu dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Cymraeg achlysurol yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae marcio'r athrawon yn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion ynglŷn â'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda. Rhoddir sylw rheolaidd hefyd i'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Gosodir targedau mewn modd systematig, ac mae'r drefn wedi'i hymgorffori'n dda. Rhoddir ystyriaeth dda i'r targedau dilynol. Mae gan bob disgybl broffil asesu sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ac fe'i defnyddir yn dda i gynllunio'r camau nesaf er mwyn iddynt wneud cynnydd.

Gwneir defnydd cyson ac effeithiol o hunanasesu ac asesu cyfoedion, gan gynnwys disgyblion yn cymharu eu canfyddiadau gyda barnau'r athrawon.

Defnyddir elfennau asesu ar gyfer dysgu ym mhob dosbarth. Fodd bynnag, mae anghysondeb o ran pa mor effeithiol y caiff y rhain eu defnyddio i sicrhau deilliannau arfaethedig.

Mae athrawon yn darparu ystod ac amrywiaeth addas o dasgau gwaith cartref, sy'n cynnwys defnyddio TGCh i chwilio am wybodaeth a chynllunio cyflwyniadau. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r datblygiad hwn yn fawr.

Mae adroddiadau blynyddol yn cael eu hysgrifennu'n glir; mae rhieni a gofalwyr yn teimlo y cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ystod eang o drefniadau yn bodoli i gefnogi lles disgyblion ar draws yr ysgol; caiff disgyblion eu hannog i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn gynhwysol iawn ac mae wedi ennill Gwobr Aur Ysgolion Cynhwysol Cymru. Mae trefniadau da ar waith ar gyfer hyrwyddo ffordd fwy iach o fyw. Rhoddir arweiniad clir i ddisgyblion ynglŷn â'u datblygiad ysbrydol a moesol, ac fe gefnogir eu dysgu yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm amrywiol a'r gweithgareddau allgyrsiol yn gwella datblygiad diwylliannol dysgwyr.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydweithio ag ystod eang o asiantaethau arbenigol yn effeithiol er mwyn lleihau'r risg o niwed. Mae'n cymryd gofal priodol i ddarparu arweiniad ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae ystod o bolisïau sy'n galluogi rheoli agweddau, ymddygiad a pherthnasoedd yn dda. Mae'r ysgol yn effeithiol o ran bodloni anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, gan nodi heriau posibl a threfniadau ymsefydlu cadarn yn gynnar.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ethos cadarnhaol, cynnes a chynhwysol iawn, sy'n annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a chyda pharch.

Mae meysydd darpariaeth yr ysgol ar gael yn gyfartal i bob un o'r disgyblion, ac fe gânt eu trin yn gyfartal ac yn deg. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf a chlir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni ac ar eu lles.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadeiladau yn effeithiol iawn; mae arddangosiadau deniadol a helaeth mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yr ysgol yn cefnogi dysgu'r disgyblion ac yn dathlu cyflawniadau'r disgyblion yn dda iawn. Mae datblygu mannau TGCh, amgueddfa aml-gyfrwng a chaban animeiddio i gyd yn cyfoethogi profiadau dysgu.

Mae datblygu'r mannau tu allan yn nodwedd ragorol, sy'n cynnig llawer o gyfleoedd ysgogol ar gyfer dysgu, chwarae a myfyrio tawel. Defnyddir y rhain yn effeithiol iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir ar gyfer pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan y pennaeth, y dirprwy bennaeth, y llywodraethwyr a'r tîm arweinyddiaeth i gyd ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ac ymddygiad y disgyblion, ac maent yn cynnig lefelau medrus o ofal a chymorth.

Mae pob un o'r staff yn deall sut maent yn cyfrannu at nodau'r ysgol. Mae gan uwch arweinwyr rolau diffiniedig ac mae arweinwyr canol yn gweithio'n dda i gyflawni eu hystod lawn o gyfrifoldebau. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac mae'r targedau a osodir yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda; mae ganddi ddealltwriaeth glir o'i rôl ac mae'n ffrind beirniadol effeithiol i'r ysgol. Mae ganddo ystod briodol o bwyllgorau gweithgar ac mae'n dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn craffu ar ddata perfformiad yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn ymwneud yn weithredol ag arfarnu a chynllunio ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a mentrau ar waith sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn effeithiol. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn cymryd safbwyntiau disgyblion a rhieni o ddifrif ac mae'n bwydo eu sylwadau i'r broses hunanarfarnu drylwyr. Ceir lefel uchel o gysondeb mewn addysgu, dysgu ac asesu, ac yn y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion hefyd. Caiff y cysondeb hwn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion, eu hymddygiad a'u hagweddau at ddysgu.

Mae arweinwyr ac athrawon yn cymryd rhan mewn ystod o rwydweithiau o arfer broffesiynol. Mae'r rhain yn hyrwyddo cynllunio cydweithredol a rhannu arfer dda yn

llwyddiannus o fewn yr ysgol a chydag ysgolion lleol eraill. Mae gan yr ysgol rôl flaenllaw o fewn y clwstwr lleol i ddatblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn gywir ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mewn Cymraeg ail iaith. Mae'n datblygu cysylltiadau ffocysedig gyda'i theulu o ysgolion Cymru gyfan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau gyda'r awdurdod lleol, y gymuned, y gwasanaethau cymorth, y colegau addysg bellach ac addysg uwch lleol, y clwstwr lleol o ysgolion a'r teulu o ysgolion Cymru gyfan. Mae'n cyfathrebu'n dda gyda rhieni ac maent yn teimlo eu bod yn rhan o fywyd yr ysgol. Caiff pob un o'r partneriaethau hyn effaith gref ar safonau cyflawniad a lles dysgwyr.

Mae rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion yn yr ysgol ac yn yr ardal. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn effeithiol iawn yn codi arian i wella'r amgylchedd dysgu.

Mae trefniadau sefydledig ac effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol ac yn cysylltu penderfyniadau ynghylch gwariant yn glir â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Ceir ystod eang a phriodol o adnoddau dysgu yn yr ysgol, yn cynnwys adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o ansawdd da.

Mae digon o athrawon cymwys a staff cymorth, a chânt eu defnyddio'n effeithiol. Mae un athro yn gweithio fel athro llanw er mwyn i athrawon eraill allu cael eu dyraniad statudol o amser cynllunio, paratoi ac asesu. Caiff y trefniadau hyn eu rheoli'n dda ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ansawdd y cynllunio a'r asesu. Mae'r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion pob un o'r staff trwy weithdrefnau gwerthuso a rheoli perfformiad rheolaidd.

Mae adeiladau'r ysgol yn drefnus iawn ac yn cael eu cynnal yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd da a wna'r rhan fwyaf o'r disgyblion, y defnydd effeithlon ac effeithiol a wna o'i chyllid, a'r lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir ganddi.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nifer fach iawn o rieni a lenwodd yr holiadur. Mae eu sylwadau am yr ysgol yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae pob un ohonynt yn fodlon â'r ysgol, maent yn teimlo ei bod yn cael ei rhedeg yn dda ac yn credu bod eu plant yn ddiogel a'u bod yn gwneud cynnydd da. Mae pob un ohonynt hefyd o'r farn fod yr addysgu yn dda. Fodd bynnag, nid yw ychydig llai na chwarter ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Yn ychwanegol, nid yw traean ohonynt yn gwybod am weithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae pob un o'r rhieni o'r farn fod y dysgwyr yn ymddwyn yn dda. Mae pedwar o bob pump o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda ynglŷn â chynnydd eu plant.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u hysgol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod yr addysgu'n dda, eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn yr ysgol a'u bod yn gwneud yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae un o bob pump o'r bechgyn yn teimlo bod ymddygiad dysgwyr eraill yn eu rhwystro rhag mynd ymlaen â'u gwaith o bryd i'w gilydd, ond ychydig iawn o ferched sy'n pryderu am hyn. Mae pob un o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn helpu iddynt fyw yn iach.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| R Gwyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Starkey | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |